

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran _____ Dyddiad geni _____

Enw _____

Cyfeiriad _____

Enw Arweinydd y Dosbarth _____



Gwersi Beiblaidd o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH
Luc 23: 1-26, 32-46

Gwers 1 Yr Arglwydd Iesu yn Marw

Yn fuan iawn ar ôl iddo farchogaeth i Jerwsalem ar gefn yr ebol, cafodd Iesu ei restio. Digwyddodd llawer o bethau'n gyflym iawn wedyn a, chyn hir, cafodd Iesu ei groeshoelio.

C Dyma enwau dau ddyn a oedd yn chwarae rhan bwysig yn achos Ilys Iesu ac yn ei ddedfrydu. Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir.

T A P L I

2

H O D R E

C Pa un ohonynt a ddywedodd sawl gwaith na allai weld bai yn Iesu?

1

Ar ddiwrnod yr achos, roedd Pilat yn fodlon gollwng un dyn yn rhydd – naill ai Iesu neu ddyn arall.

C Beth oedd enw'r dyn arall. Cewch yr ateb trwy nodi llythyren gyntaf pob un o'r pethau isod.



1

C Pa beth arbennig a wnaeth Simon o Cyrene y diwrnod hwnnw?

1

Cafodd Iesu ei groeshoelio ar fryn y tu allan i Jerwsalem.

C Darllenwch yr Adnod Allweddol ac yna:-

1. Tynnwch lun y nifer iawn o groesau ar y bryn.
2. Chwiliwch am enw'r bryn.
3. Ysgrifennwch 'IESU' uwch ben ei groes.



3

C Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn GYWIR neu'n ANGHYWIR

- Roedd y bobl yn gwawdio Iesu.
- Cynigiodd y milwyr ddiod o ddŵr iddo.
- Rhoddyd ei ddillad i'r bobl dlawd.
- Roedd arwydd uwch ei ben ar y groes.
- Gweddiodd Iesu ar ei Dad pan oedd ar y groes.

5

Roedd agwedd y ddau ddyn arall a gafodd eu croeshoelio gyda Iesu yn wahanol iawn i'w gilydd. Roedd un ohonynt yn dweud pethau cas amdano. Roedd y llall yn difaru ei fod wedi bod yn ddrwg a gofynnodd i Iesu faddau iddo.

C Ysgrifennwch:-

1. Beth ddywedodd yr ail leidr am Iesu yn adnod 41.
2. Beth ddywedodd e wrth Iesu yn adnod 42
3. Yr ateb a gafodd gan Iesu yn adnod 43.

1
2
3

3

Dylai pawb ohonom wneud fel y dyn yma! Mae angen i ni droi oddi wrth ein pechodau ac ymddiried yn yr Arglwydd Iesu i roi lle i ni ym mharadwys (y Nefoedd).

Digwyddodd nifer o bethau rhyfedd iawn y diwrnod hwnnw.

C 1. Beth ddigwyddodd i'r haul?

2. Beth ddigwyddodd i len y deml?

1
2

2

C Ysgrifennwch y geiriau diwethaf a ddywedodd Iesu cyn iddo farw.

2

Wrth i ni ddarllen am Iesu'n marw, mae'n bwysig i ni ddeall bod ei farwolaeth ef yn arbennig iawn gan iddo farw "dros ein pechodau ni" (1 Corinthaidd 15:3). Bu Iesu farw fel y gellid maddau ein pechodau ni. Heddiw, mae Duw yn galw arnon ni i droi ato, gan ymddiried ynddo fe i'n hachub ni.



READ
John 20: 1-18



KEY VERSE
Romans 10: 9

Gwers 2 Yr Arglwydd Iesu yn Atgyfodi

Pan fyddwn ni'n darllen am fywydau pobl enwog, fel rheol mae pennod olaf y llyfr yn sôn amdany'n nhw'n marw. Ar ôl hynny, does dim mwy i'w ddweud! Ond mae hanes Iesu'n wahanol iawn! Nid y bedd oedd diwedd y daith iddo ef!



Dyma Mair Magdalen yn siarad â'r ddau ddisgybl (adnod 2).

C Atebwch y cwestiynau hyn:-

Pa ddiwrnod o'r wythnos oedd hi?

Ble'r oedd Mair wedi bod y bore hwnnw?

Beth welodd hi yno?

Beth oedd hi'n meddwl oedd wedi digwydd?

Beth oedd enw un o'r disgyblion?

5

Dyma'r ddau ddisgybl yn y man lle cafodd Iesu ei gladdu.



C Rhowch groes trwy'r geiriau ANGHYWIR:-

Pedr oedd Y CYNTAF / YR AIL i gyrraedd y bedd.

Edrychodd y disgybl arall i mewn a gwelodd GORFF IESU / Y LLIEINIAU / Y GARREG. Yna aeth

Pedr i mewn a gwelodd DDIM BYD / IESU / Y LLIEINIAU / Y GARREG.

Yna daeth y disgybl arall a GWEIDDI / MYND I MEWN / LLEWYGU.

Ymhen tipyn, EISTEDDODD Y DYNION I DDISGWYL AM MAIR / AETH Y DYNION ADREF

/AETH Y DYNION I GYSGU.

5

Roedd Mair ar ei phen ei hunan yn y man lle cafodd Iesu ei gladdu.

Cafodd brofiad arbennig iawn!



C Darllenwch adnodau 11 – 16 a llenwi'r Grid Geiriau gan ddefnyddio'r cliwiau:-

1. Gwelodd Mair ddau o'r rhain.
2. Lliw.
3. Roedd Mair yn meddwl mai hwn oedd y dyn a siaradodd â hi.
4. Yr enw a roddodd Mair ar Iesu.
5. Dywedodd Iesu nad oedd wedi _____ at ei Dad.
6. Aeth Mair i ddweud wrth y rhain.

1									
2									
3									
4									
5									
6									

6

Trodd tristwch Mair yn llawenydd pan sylweddolodd mai yr Un a fu farw ar y groes oedd y dyn a fu'n siarad â hi. Roedd Duw wedi'i atgyfodi ef. Roedd hi'n hollol sicr o hynny.

Mae ATGYFODI yn golygu DODYN FYW AR ÔL MARW. I Corintiaid 15:3 a 4

Mae atgyfodiad Iesu yn rhan bwysig iawn o gynllun mawr Duw i'n hachub ni. Roedd yn dweud yn yr Hen Destament y byddai'n cael ei atgyfodi. Felly, rydym yn gwybod bod marwolaeth Iesu yn ddigon i roi maddeuant i ni am ein holl bechodau.

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.

2

Mae'r wers yn gorffen â'r Iesu byw yn rhoi tasg i Mair.

C At bwy wnaeth Iesu anfon Mair?

--

Beth oedd hi i fod i'w ddweud wrthyn nhw?

2

Heddiw, pobl fel Mair sy'n nabod Iesu ac yn ei garu sy'n gallu dweud wrth bobl eraill amdano. Ydych chi'n ei nabod ac yn ei garu? Ydych chi'n dweud wrth bobl eraill amdano?



DARLLENWCH
Ioan 20: 19-29
Luc 24: 50-53




**ADNOD
ALLWEDDOL**
Luc 24: 51

Gwers 3 Yr Arglwydd Iesu yn Gadael

Mae plismyn da yn chwilio am gliwiau i'w helpu yn eu gwaith. Yna, maen nhw'n gwneud penderfyniad wedi'i seilio ar y dystiolaeth. Mae llawer o dystiolaeth dros gredu bod yr Arglwydd Iesu wedi atgyfodi mewn gwirionedd. Dewch i edrych ar dipyn ohono!

C Darllenwch Ioan 20:19-21 ac yna atebwch y cwestiynau hyn.

1. Pam roedd y disgyblion wedi cloi'r drysau?
2. Beth ddywedodd Iesu pan gyrhaeddodd?
3. Yn eich barn chi, pam wnaeth e ddangos ei ddwylo a'i ochr iddyn nhw?
4. Sut roedden nhw'n teimlo pan welson nhw Iesu?



1
2
3
4

4

C Darllenwch adnodau 24 a 25 a llenwi'r bylchau yn y paragraff isod:-

Y noson honno, nid oedd yno. Yn nes ymlaen, dywedodd y
eraill wrtho beth oedd wedi digwydd. Dywedodd ef na fyddai'n
os na châi roi ei yn ôl yr hoelion a'i law yn ei



Edrychwch ar adnodau 26 – 29 i weld sut y newidiodd agwedd Thomas.

5

C Rhowch √ neu × i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn GYWIR neu'n ANGHYWIR.

- Roedd Iesu'n flin/grac â Thomas am ddweud fel y gwnaeth.
- Roedd Iesu'n gwybod yn union beth roedd Thomas wedi'i ddweud.
- Roedd y drysau i gyd ar agor y tro hwn.
- Credodd Thomas am iddo weld.

4

Roedd amheun Thomas i gyd wedi mynd! Roedd e'n hollol siwr fod Iesu'n fyw ac mai Mab Duw oedd e.

C Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir i ddangos beth ddywedodd Thomas am Iesu.

“YF DDRYLAGW M'A WUD”

Credodd Thomas AM IDDO WELD. Ond mae'n bosib i ni GREDU HEB WELD. (Darllenwch ddiwedd adnod 29). Gall pob un ohonom ni wneud hynny! Dydyn ni ddim wedi gweld Iesu ond gallwn ymddiried ynddo fel ein Gwaredwr a'n Harglwydd!

Cyn hir, daeth yr amser i'r Arglwydd Iesu fynd yn ôl i'r Nefoedd.

Y GAIR AM BETH DDIGWYDDODD PAN AETH IESUYN ÔL AT EI DADYN Y NEFOEDD YW “ESGYNIAD”.

C Darllenwch Luc 24: 50-53 ac atebwch y cwestiynau yn y blychau.

1. I ble'r aeth Iesu yn ôl?

2. Beth yw enw'r pentref?

3. I ble'r aeth y disgyblion?



C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.

C Ceisiwch ddatrys y cod i ddangos sut roedd y disgyblion yn teimlo. (1 = a, 2 = b, 3 = c, 4 = ch, etc)

15 / 1 / 27 / 7 / 17

13 / 1 / 27 / 17

Fel rheol, os oes ffrind arbennig yn ein gadael, byddwn yn teimlo'n drist. Ond roedd yn wahanol i'r disgyblion (adnod 52). Roedden nhw mor siwr amdano fel na allen nhw fod yn drist!

Roedden nhw'n gwybod nad dyma oedd y diwedd.

Yn ogystal â rhoi gwaith iddyn nhw ei wneud drosto, roedd Iesu wedi rhoi addewidion hyfryd i'w ddisgyblion fel y gwelwn ni yn y wers nesaf.



DARLLENWCH
Actau I: 4,8-12



**ADNOD
ALLWEDDOL**
Actau I:11

Gwers 4 Yr Arglwydd Iesu yn Dod Eto

Os oes rhywun sydd bob amser yn dweud y gwir yn addo rhywbeth i ni, mae gennym bob lle i ymddiried ynddyn nhw ac i fod yn hapus! Un diwrnod, byddan nhw'n cadw'r addewid i ni. Felly roedd hi gyda disgyblion Iesu. Pan oedd Iesu ar fin mynd yn ôl i'r Nefoedd, fe roddodd addewidion ardderchog iddyn nhw. Roedden nhw'n credu y byddai'n cadw'r addewidion rhyw ddiwrnod ac yn gwneud yn union fel yr addawodd.

C Darllenwch Actau I: 8 i weld ei addewid gyntaf ac yna gorffennwch y frawddeg hon.

Addawodd Iesu roi _____ iddyn nhw.

C Nawr rhowch ✓ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn GYWIR neu'n ANGHYWIR. Addawodd roi nerth iddyn nhw a fyddai'n:

Dibynnu ar eu gallu a'u dewrder nhw.

Eu helpu i fod yn dystion iddo.


Dod oddi wrth Dduw, yr Ysbryd Glân.

Eu galluogi i fynd dros y byd i gyd i bregethu.

C Ysgrifennwch ar

yr arwydd

**enwau tri lle yr
oedd Iesu eisiau
i'w ddisgyblion
fynd â'i neges.**



Gall Cristnogion heddiw gael yr un nerth. Er mwyn iddynt fod yn ddefnyddiol i Iesu yn dweud wrth eraill amdano mae'n rhaid iddyn nhw gael help yr Ysbryd Glân. Allan nhw ddim o'i wneud yn eu nerth eu hunain.

C Darllenwch stori esgyniad Iesu ac ysgrifennwch yr atebion i'r cwestiynau hyn:-

Beth oedd yn cuddio Iesu o'u golwg?

Faint o 'ddynion' welson nhw?

Beth oedd lliw eu dillad?



Beth wnaethon nhw alw'r disgyblion?

Wrth i Iesu esgyn i'r Nef, rhoddwyd addewid arall.

“Bydd yr Iesu hwn ...

2

C Copïwch y rhan o'r Adnod Allweddol sy'n cynnwys yr addewid hon.

Pan fydd rhywun annwyl yn mynd i ffwrdd, mae'n dda gwybod y bydd yn dod yn ôl rhyw ddiwrnod. Mae Cristnogion ym mhobman yn gwybod y bydd yr Arglwydd Iesu'n dod yn ôl. Ni fydd yn torri ei addewid!

C Defnyddiwch eich Beibl i orffen y brawddegau hyn:- (gan ychwanegu ychydig eiriau)

Ioan 14:3 “Ac os af a pharatoi lle i chi, fe _____”

I Thesalonïaid 4: 16 “Bydd yr Arglwydd ei hun yn _____”

Mae'r adnoddau hyn yn dysgu i ni y BYDD YN DOD ETO. Y peth pwysig i bawb ohonom yw ein bod yn BAROD ar gyfer hynny trwy ymddiried ynddo fel GWAREDWR i ni. Ar ôl i ni wneud hynny, dylem fyw fel “tystion” da iddo. Mae'r Ysbryd Glân yn rhoi nerth i ni wneud hynny.

2

CHWILAIR

C Defnyddiwch y cliwiau hyn i'ch helpu. Tynnwch linell o gwmpas y geiriau cudd. Gallant fod wedi'u hysgrifennu i fyny, i lawr, yn ôl, ymlaen, neu ar lletraws.

1. Pobl sy'n adrodd beth y maen nhw wedi'i weld neu ei glywed.
2. Lliw.
3. Maen nhw yn yr awyr.
4. O'r ardal hon yr oedd y disgyblion yn dod.
5. I ble'r aeth Iesu?
6. Ymddangosodd dau __.
7. Nid yw Duw yn torri hon.
8. Ger pa ddinas y digwyddodd yr esgyniad?

W	E	W	Y	O	G	C	O	I	
J	E	R	W	S	A	L	E	M	
R	W	R	P	W	L	O	R	N	
C	T	Y	S	T	I	O	N	O	
A	Y	S	N	A	L	R	P	M	
E	D	D	E	O	F	E	N	I	W
D	I	W	E	D	D	A	P	E	N

4

cyfanswm

Marciau
[i'w nodi gan yr athro]

Cyfanswm

Cyfanswm llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwillog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120